

**Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
PLANT AC YSGOLION**



**ADDASIAD RHEOLEIDDIEDIG I YSGOL
GYNRADD GYMUNEDOL TREDEML**

**CYNNIG I YMESTYN YR YSTOD OEDRAN I
DDERBYN DISGYBLION TAIR OED RHAN-AMSER**

ADRODDIAD YMGYNGHOROL

**Kate Evan-Hughes
Cyfarwyddwr Dros Blant ac Ysgolion**

Mawrth 2018

Cyhoeddwyd gan:

**Gyngor Sir Penfro
Y Gyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP**

Mawrth 2018

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn Braille, mewn print mwy neu ar dâp sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar 01437 776613

Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am gyflwyno addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael yr ysgolion cywir yn y lleoedd cywir a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dysgwr yn yr 21^{ain} ganrif yn her sy'n wynebu cynghorau ledled Cymru.

Mae bodloni'r her hon yn cynnwys adolygu'r nifer a'r math o ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu p'un a yw'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u hadnoddau a'u cyfleusterau ai peidio.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- Ansawdd a dyfodol cynaliadwyedd darpariaeth addysgol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd ysgol
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgol
- Gwerth am arian

Mae'r Adroddiad Ymgynghori hwn yn trafod yr ymgynghoriad statudol a wnaethpwyd ynglŷn â'r achos dros newid mewn perthynas ag ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml er mwyn derbyn disgyblion tair blwydd oed rhan amser. Yn ogystal â hyn, cofnodir pob ymateb a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori, ynghyd â chrynodeb o bob mater a godir gan yr ymgynghoreion. Yn gysylltiedig â'r rhain bydd eglurhad neu wrthwynebiad (fel sy'n briodol) i unrhyw bryderon.

Kate Evan-Hughes
Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghorol	2
3. Trefniadau'r Ymgynghoriad	2
4. Gohebiaeth yr Ymgynghoriad	3
4.1. Nifer a Phroffil yr Ymatebion a ddaeth i law	
4.2. Ymateb gan Estyn	
5. Ymatebion i'r Ymgynghoriad	4
ATODIAD A – Ymateb gan Estyn	7
ATODIAD B – Gohebiaeth a dderbyniwyd	9

1. Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd statudol i sicrhau lleoedd ysgol digonol ac addas yn ei ardal a phennu p'un a yw'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau i gyflwyno'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2016, ystyriodd Cyngor Sir Penfro adroddiad y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion mewn perthynas â chais gan gorff llywodraethu Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Cymunedol Tavernspite a Thredeml o werth ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml er mwyn derbyn disgyblion tair blwydd oed.

O ganlyniad i'r adroddiad hwn, roedd penderfyniad y Cyngor Sir fel a ganlyn:

Bod y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion yn cael ei hawdurdodi i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i wneud newid a reoleiddir i Ysgol Gymunedol Tredeml er mwyn derbyn disgyblion tair oed rhan-amser.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol dilynol yn ystod y cyfnod rhwng 13 Tachwedd 2017 a 15 Ionawr 2018.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y Cyngor Sir fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi Dogfen Ymgynghorol. Mae'r ddogfen hon:

- Yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion;
- Yn ymateb i'r materion hyn trwy egluro neu wrthwynebu'r pryderon gyda rhesymau i'w cefnogi, lle bo'n briodol, ac
- Yn amlinellu barn Estyn am rinweddau cyffredinol y cynnig.

2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghorol

Bydd yr Adroddiad Ymgynghorol hwn yn cael ei ddosbarthu i'r canlynol:

- Cyrff Llywodraethol, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwad a staff yr ysgolion canlynol: Ysgol Gynradd Tredeml, Ysgol Gynradd Tafarnspite, Ysgol Gynradd Arberth, Ysgol Gynradd Stepaside ac Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Oswald
- Disgyblion/Cynghorau Ysgol yr ysgolion uchod
- Y Cyfarwyddwyr Addysg ar gyfer Esgobaeth Tyddewi ac Esgobaeth Mynyw
- Aelodau'r Cynulliad: Etholaeth – Angela Burns; Rhanbarthol – Eluned Morgan, Neil Hamilton, Simon Thomas, Joyce Watson.
- Aelod Seneddol: Simon Hart.
- Undebau llafur staff addysgu a staff cymorth: NUT, NASUWT, UCAC, ATL
- Gweinidogion Cymru
- Estyn
- ERW – Consortiwn Addysg Rhanbarthol.
- Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion
- Uned drafnidiaeth y Cyngor Sir
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys
- Y Cynghorau Cymuned a Dinas canlynol: Tredeml, Arberth, Llanbedr Efelffre
- Partneriaeth Gofal Plant a Phobl Ifanc – Grŵp y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Dysgu.
- Darparwyr meithrin annibynnol, Meithrinfeydd Dydd Cofrestredig/ Cylchoedd Chwarae, Gwarchodwyr Plant Cofrestredig
- Cynghorwyr Sir: Y Cynghorydd EA Morse (Arberth Wledig), Y Cynghorydd DJ Pugh (Cilgeti/Begeli), Y Cynghorydd D Simpson (Llanbedr Efelffre)

Yn ychwanegol, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl ymgynghoreion sydd wedi gofyn yn benodol i gael gwybod ei fod ar gael.

3. Trefniadau'r Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghorol ar 13 Tachwedd 2017; roedd y dyddiad hwn yn cynrychioli dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol hefyd. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 15 Ionawr 2018. Dosbarthwyd y Ddogfen Ymgynghorol / anfonwyd y dolenni at yr holl ymgynghoreion statudol a restrir ar dudalen 3 y ddogfen honno.

Trefnwyd bod y Ddogfen Ymgynghorol ar gael ar wefan y Cyngor Sir, yn www.sir-benfro.gov.uk/dweudeichdweud.

4. Gohebiaeth yr Ymgynghoriad

4.1 Nifer a Phroffil yr Ymatebion a ddaeth i law

Cafwyd cyfanswm o 55 ymateb, fel a ganlyn:

Ymatebion o'r Gymuned	51
Pennaeth a chorff llywodraethol Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Cymunedol Tafarnspite a Thredeml	2
Y Cyngor Ysgol	1
Estyn	1
CYFANSWM	55

Rhoddir proffil yr ymatebwyr isod, ac mae'n adlewyrchu'r holl ddisgrifiadau a roddir. Mae'r proffil hwn yn dangos rôl ymatebwyr fel rhan o'r ymgynghoriad, a gallai ddangos rolau lluosog, e.e. rhiant, staff a phreswyllydd lleol; o ganlyniad, nid yw'r cyfanswm gyfwerth â chyfanswm nifer yr ymatebion a dderbyniwyd.

Rhiant cyn-ysgol	15
Rhieni	26
Llywodraethwyr	7
Preswylwyr	21
Staff	7

4.2 Ymateb gan Estyn

Mae'r Cyngor Sir wedi derbyn ymateb manwl i'r cynnig gan Estyn. Mae ei gasgliad cyffredinol ynglŷn â'r cynnig fel a ganlyn:

Ym marn Estyn, mae'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal safonau presennol y ddarpariaeth yn yr ardal.

Mae'r ymateb llawn i'r cynnig gan Estyn ynghlwm yn **ATODIAD A**.

5. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Lle y dewisodd ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu'r copi papur a ddarparwyd, gofynnwyd iddynt ymateb i dri chwestiwn er mwyn sefydlu eu barn am y cynnydd.

5.1 *Nodwch ba un o'r canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn am y cynnig i ymestyn yr ystod oedran i dderbyn disgyblion tair oed yn rhan-amser yn Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml.*

Mae'r canfyddiadau fel a ganlyn:

	Cyfanswm	
	Nifer	%
Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall	1	2%
Rwy'n cefnogi'r cynnig	31	61%
Nid wyf yn cefnogi'r cynnig	18	35%
Wedi gadael yn wag	1	2%
CYFANSWM	51	

5.2 *Rhowch eich sylwadau ar y cynnig:*

Mae'r tablau canlynol yn rhoi crynodeb o brif themâu'r ymatebion a gafwyd. Mae rhestr o'r holl sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghlwm yn **Atodiad B**.

Sylwadau / Arsylwadau (O blaid y cynnig)
Mae'r cynnig yn rhoi sylfaen gadarn i blant ffynnu mewn amgylchedd ysgol
Mae'r cynnig yn sicrhau bod Tredeml a Thafarnspite yn cael eu trin yn gyfartal o ran derbyn disgyblion meithrin.
Mae'r cynnig yn cynnig cydraddoldeb â'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd eraill yn Sir Benfro o ran derbyn disgyblion meithrin.
Mae'n rhoi cyfle i Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml dyfu ymhellach a sicrhau ei chynaliadwyedd tymor hwy.

Pryderon / Sylwadau (Yn erbyn y cynnig)	Ymateb yr Awdurdod i'r Pryderon a Godwyd
Byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar Gylch Chwarae Templetots ac ar y gymuned yn gyffredinol.	Cydnabyddir y pryder. Fodd bynnag, dylid nodi mai'r cynnig yw sefydlu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn yr ysgol ar y cyd â Chylch Chwarae Templetots, nid ar ei draul. Yn yr un modd â'r berthynas sy'n bodoli gyda llawer o ysgolion eraill a darparwyr annibynnol, bydd Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml a Templetots yn rhannu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, gyda disgyblion yn parhau
Bydd y cynnig yn arwain at ddiwedd Cylch Chwarae Templetots	

Pryderon / Sylwadau (Yn erbyn y cynnig)	Ymateb yr Awdurdod i'r Pryderon a Godwyd
	yn Templetots yn ystod y ddau dymor cyntaf yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed cyn dechrau yn rhan-amser yn ysgol Tredeml yn ystod y trydydd tymor.
Mae pryder am ddiffyg lle yn Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml ar gyfer y ddarpariaeth hon oni bai bod Templetots yn cael ei adleoli i rywle arall.	<p>Ar sail nifer presennol y disgyblion yn yr ysgol a'r rhagamcanion, mae digon o le i Templetots barhau yn yr ysgol. At hynny, nid oes tystiolaeth o unrhyw ddatblygiadau sylweddol o dai a allai effeithio ar hyn yn ystod y pum mlynedd nesaf.</p> <p>Mae defnydd Templetots o'r ysgol yn seiliedig ar gytundeb blynyddol gyda'r corff llywodraethol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt o ran cynnal hyn.</p>
Mae hwn yn gynnig diangen. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn dda ac mae'n gwasanaethu rhieni a phlant yn dda. Mae tystiolaeth o hyn yn adroddiadau arolygu diweddar Estyn ac AGGCC.	<p>Mae barnau Estyn ac AGGCC wedi'u cydnabod ac wedi'u cofnodi yn y Ddogfen Ymgynghorol (Paragraff 3.7).</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen i Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml weithio'n agos gyda Templetots i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei rhannu er budd pennaf plant a'u teuluoedd, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.</p>
Bydd colli cyllid i Templetots o ganlyniad i'r cynnig yn cael effaith niweidiol.	Cynigir y bydd plant yn parhau i fynychu Templetots am y tymor cyntaf a'r ail dymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau presennol, llwyddiannus, yng nghymdogion agosaf Tredeml, h.y. Ysgolion Cynradd Cymunedol Tafarnspite ac Arberth.
Mae dechrau'r ysgol yn 3 mlwydd a 9 mis oed yn rhy gynnar i lawer o blant.	Yn Sir Benfro, mae plant yn gymwys i fynd i'r ysgol yn rhan-amser o'r tymor cyntaf ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, ac ar sail amser llawn o'r tymor cyntaf ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhieni'n gallu dewis gohirio dyddiad dechrau eu plentyn hyd nes bod y plentyn yn cyrraedd oed ysgol gorfodol, h.y. ar ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed.

5.3 *Rhowch unrhyw gynigion eraill sydd gennych yn lle'r cynnig*

Cynigion a awgrymwyd
Cynnal y sefyllfa sydd ohoni, h.y. cynnal darpariaeth Cylch Chwarae Templetots a'r ysgol i blant 4-11 oed.
Yn y pen draw, os bydd Cylch Chwarae Templetots yn cael ei orfodi i adleoli o'r ysgol, dylai naill ai Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml neu'r Cyngor Sir dalu'r costau adleoli ac ati, neu ddarparu lle ychwanegol.

Ymateb Estyn i'r cynnig i wneud newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Tredeml er mwyn ymestyn yr ystod oedran i dderbyn disgyblion meithrin rhan-amser.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Cyflwyniad

Dyma gynnig gan Gyngor Sir Penfro i wneud newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Tredeml er mwyn ymestyn yr ystod oedran i dderbyn disgyblion meithrin rhan-amser.

Crynodeb

Y cynnig gan Gyngor Sir Penfro yw ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd Tredeml er mwyn derbyn disgyblion tair oed.

Ysgol Gynradd Tredeml yw un o'r ysgolion prin yn y sir nad yw'n gallu derbyn disgyblion tair oed. Pe bai'r cynnig hwn yn llwyddiannus, byddai'n arwain at alinio ystod oedran Ysgol Gynradd Tredeml ag ystod oedran Ysgol Gynradd Tafarnspite. Mae'r ddwy ysgol wedi'u ffedereiddio a byddai'r cynnig yn sicrhau derbyniadau a darpariaeth gyson i'r ffederasiwn.

Yng nghyd-destun y cynnig hwn ac yn wyneb y cydweithio angenrheidiol â Chylch Chwarae Templetots, cynigir y bydd plant yn parhau i fynd i Templetots am y ddau dymor cyntaf yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed cyn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Tredeml am y trydydd tymor. Yn ystod y trydydd tymor, cynigir y byddai plant yn mynd i Templetots yn ystod y bore a'r dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd Tredeml yn ystod sesiwn y prynhawn. Byddai'r plant yn dod yn ddisgyblion amser llawn yn Ysgol Gynradd Tredeml yn ystod y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed, yn amodol ar ddewis eu rhieni.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal safonau presennol y ddarpariaeth yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y buddion disgwylidig arfaethedig sy'n gysylltiedig â chynnig darpariaeth addysg barhaus o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6.

Mae'r cynigiwr yn nodi manteision y cynnig yn briodol, sy'n cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth feithrin i blant 3 oed yn yr ardal, gan felly gynnig cyfle i gynyddu nifer y disgyblion yn Nhredeml. Mae'r cynigiwr yn ystyried yn briodol y byddai'r ddarpariaeth addysg o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6 yn sicrhau parhad mewn dulliau addysgu a dysgu a chynllunio'r cwricwlwm yn well.

Mae'r cynigiwr wedi nodi anfanteision y cynnig presennol yn briodol, sy'n canolbwyntio ar yr anfantais bosibl i leoliadau eraill y blynyddoedd cynnar yn yr ardal.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Tredeml yn addysgu Cymraeg fel ail iaith ond nid yw'n cynnig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y trefniant hwn yn parhau o dan y cynnig. O ran ansawdd a safonau mewn addysg, ystyrir na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar ysgolion cynradd lleol eraill.

Nid yw'r cynnig hwn yn newid y ddarpariaeth cludiant bresennol o'r cartref i'r ysgol. Rhagwelir y bydd mân newidiadau i drefniadau presennol yr ystafelloedd dosbarth. Fodd bynnag, mae'r cyfleusterau presennol yn yr ysgol yn briodol ar gyfer gweithredu'r cynnig. Mae gan yr ysgol radd "B" (Boddhaol) ar gyfer ei chyflwr a'i haddasrwydd fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Y darparwr sy'n fwyaf tebygol o gael ei effeithio gan y cynnig yw Cylch Chwarae Templetots. Mae'r lleoliad cyn-ysgol hwn yn darparu ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed. Mae'n cyfarfod 5 bore'r wythnos mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Gynradd Tredeml ac fe'i sefydlwyd ym 1981.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr yn cyfeirio'n briodol at ddeilliannau arolygiad diweddaraf yr ysgol gan Estyn yn 2009. Mae'n nodi bod nodweddion da gan yr ysgol a dim diffygion pwysig. Arolygwyd Cylch Chwarae Templetots ym Mai 2016 a barnodd Estyn fod perfformiad y lleoliad a'i ragolygon gwella yn dda.

Yn ogystal, mae'r cynigiwr yn cyfeirio'n fyr at gategoreiddiad yr ysgol yn y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Tredeml yng ngrŵp safonau 1. Mae crynodeb y cynigiwr o ddeilliannau i'r ysgol yn glir ac yn gryno, gan gymharu perfformiad ag ysgolion tebyg ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim.



Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad priodol o'r ardal ac yn nodi nad oes tystiolaeth o dwf arwyddocaol yn nifer y tai yn yr ardal ac nad yw hyn yn debygol o gael effaith ar nifer y disgyblion dros y 5 mlynedd nesaf.

**Cynnig i Ymestyn yr Ystod Oedran i Dderbyn Disgyblion Tair Oed yn Rhan-amser
Gohebiaeth a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad statudol**

Cyf.	Sylwadau
2	Mae dechrau'r ysgol yn ffurfiol yn 3 oed yn gosod sylfaen gadarn i blant ar gyfer eu bywyd addysgol. Dechreuodd fy mhlentyn ysgol brif ffrwd yn 3 oed o dan AALI Rhondda Cynon Taf a chredaf fod y pontio yn haws iddyn nhw a'u teuluoedd y cynharaf mae plentyn yn dechrau ei 'fywyd ysgol'.
3	<div style="background-color: black; height: 15px; width: 100%;"></div> <p><i>(cuddiwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r atebwr am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</i></p>
4	<p>Teimlaf yn gryf iawn y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niweidiol ar Templetots a chymuned Tredeml. Bydd staff allan o waith o ganlyniad, bydd plant 2 flwydd oed heb gylch chwarae i fynd iddo a bydd yn gadael bwlch yn y pentref. Mae Templetots wedi bod yn y pentref ers dros 35 mlynedd ac mae'n ddechrau gwych i blant a'u rhieni; mae'n amhrisiadwy i ni fel rhieni</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Gofal cofleidiol gyda'r cylch chwarae.</p>
5	Yn fy marn i, mae'n bwysig i ddatblygiad ein plant eu bod yn dechrau'r ysgol yn ifancach. Maen nhw'n dysgu cymdeithasu, rhannu a chwarae.
6	Rwy'n teimlo'i bod hi'n haws i blant bontio i'r ysgol yn ifancach. Maen nhw'n dysgu bod yn gymdeithasol ac mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol.
7	Bydd yn dda i'r ysgol ac i'r plant.
8	Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn, mae'n bwysig bod plant yng nghlwstwr Tredeml yn cael yr un cyfleoedd â phlant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac na ddylid gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd yr ardal maen nhw'n byw ynddi. Mae dechrau'r ysgol yn ifancach yn bwysig i'w datblygiad cyfan.
9	Gall plant yn ardaloedd eraill Sir Benfro fynd i'r ysgol yn 3 oed. Credaf y dylai plant yn ein cymuned gael yr un cyfleoedd. Byddai'n wych i Ysgol Tredeml.

11	<p>Teimlaf fod hyn yn mynd i'r afael â rhywbeth sydd â gwir angen amdano yn Nhredeml. Mae fy mhartner a mi yn cefnogi'r cynnig hwn yn frwd; mae'n gynnig blaengar ac ystyriol.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Nid oes angen dewis arall.</p>
12	<p>Yn fy marn i, nid oes lle yn yr ysgol i dderbyn mwy o ddisgyblion; mae'r ysgol yn llawn. O beth wela' i, yr unig ffordd o gael lle i fwy o blant yw trwy ddefnyddio lle presennol Templetots, a fyddai'n gadael Templetots heb unman i leoli.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Gofal cofleidiol, gan adael Templetots lle maen nhw.</p>
13	<p>Mae dechrau'r ysgol yn ifancach yn bwysig, nid yn unig i'r plentyn ond mae budd ariannol i rieni sy'n gweithio nad ydynt yn cael cymorth ychwanegol gan y llywodraeth.</p>
14	<p>Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn yn llwyr. Gall plant eraill yn y sir fynd i'r ysgol yn 3 oed ac rwy' wastad wedi teimlo y dylai hyn fod ar gael i bob plentyn yn Sir Benfro, nid dim ond plant mewn ardaloedd dethol. Mae Ysgol Tredeml wedi mynd o nerth i nerth yn y blynyddoedd diwethaf; bydd gweld y plant yn pontio'n gynt ac yn ffynnu yn sgil eu haddysg yn hyfryd.</p>
15	<p>Credaf y dylai lleoedd rhan-amser i blant tair oed gael eu cynnig yn holl ysgolion Sir Benfro. Rwy'n credu y byddai pontio i'r ysgol yn rhan-amser cyn gorfod mynd drwy'r dydd yn fuddiol i'n plant.</p>
16	<p>Bydd dechrau'r ysgol yn ifancach yn cynorthwyo â phontio ac yn magu hyder a sgiliau cymdeithasol. Mae dysgu trwy chwarae yn y cyfnod sylfaen wedi gweithio mor dda yn ardaloedd difreintiedig Sir Benfro. Ni welaf pam na all pob ysgol gynnig y ddarpariaeth hon.</p>
17	<p>Rwy'n credu bod 4 oed yn ddigon ifanc i blentyn fynd i'r ysgol ac, fel rhiant sydd â phlant yn y lleoliadau ar hyn o bryd ac yn y gorffennol, rwy'n teimlo bod Ysgol Tredeml a Chylch Chwarae Templetots yn cynnig y cyfuniad perffaith o ofal a dysgu i blant, ar yr oedran cywir. Nid yw pob plentyn yr un peth ac er y gallai rhai elwa o ddechrau yn 3 blwydd a 9 mis oed, efallai na fydd eraill yn elwa. Dylai hwn fod yn benderfyniad i riant. Fel rhiant, roeddwn eisieu dewis ymhle a phryd mae fy mhentyn yn mynd i ddosbarth meithrin ac mae tynnu'r dewis hwnnw oddi arnom ni yn gwbl annheg yn fy marn i, oherwydd caiff y 10 awr o ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar sydd wedi'i hariannu ei cholli os na fydd y plentyn yn dechrau yn nosbarth meithrin yr ysgol. Os na all rhieni fforddio talu i'w plentyn barhau yn Templetots, ni fydd dewis ganddynt ond anfon eu plentyn i Ysgol Feithrin Tredeml neu gadw'r plentyn gartref hyd nes bydd yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn neu ym mlwyddyn 1. Ar hyn o bryd, mae plant yn mynd i Gylch Chwarae Templetots ac mae'r pontio i'r ysgol yn hwylus iawn, oherwydd y gofal a'r cysylltiad a fu gan Templetots â'r ysgol ers symud i'r lleoliad yn 2007. Hefyd, mae problem lleoliad y feithrinfa. Byddai plentyn 3 blwydd a 9 mis oed ar goll yn llwyr mewn ystafell ddosbarth gyda phlant eraill sydd hyd at 5 mlwydd oed. Os byddai angen i Templetots symud, byddai'n golled wirioneddol i'r rhan fwyaf o rieni, sy'n dibynnu ar ofal lefel uchel i blant o 2 flwydd oed a gofal arbennig i blant â</p>

	<p>gofynion ac anghenion dysgu 1 i 1. Hefyd, byddai'n golled enfawr i'n cymuned ar ôl 37 mlynedd ym mhentref Tredeml. Mae Templetots yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cael ei addysgu i blant mewn nifer o ffyrdd maen nhw'n eu mwynhau. Hefyd, maen nhw'n gofalu am y plant fel y byddai rhiant yn ei wneud, gan wneud bwyd, newid cewyn a mynd â'r plentyn i'r toiled. A fyddai staff Ysgol Tredeml yn gallu cynnig unrhyw rai o'r gofynion hyn? Mae'r ymgynghoriad yn sôn am ofal cofleidiol ond nid oes cytundeb ar hyn eto gydag AGGCC, pwyllgor, staff a rhieni o'r ddau leoliad. Cafwyd tair sgwrs ar wahân a dau gyfarfod â Mr Phelps ac aelod arall o'i staff ac roeddwn i'n rhan o hyn, fel cyn ysgrifennydd y cylch chwarae, a chefais sicrwydd dro ar ôl tro y byddai Templetots yn parhau yn adeilad yr ysgol. Byddai gwasanaeth cofleidiol yn wasanaeth gwych i rieni, ond ni all weithio oni bai y byddai Templetots yn parhau o fewn adeilad yr ysgol. Mae staff Templetots wastad wedi bod o blaid cynnig y gwasanaeth hwn gydag Ysgol Tredeml ac rwy'n gobeithio'n fawr mai dyna fel y bydd hi.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadw pethau fel y maen nhw nawr, gyda phlant yn dechrau'r dosbarth Derbyn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed. • Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, dylai rhieni allu penderfynu p'un a yw eu plentyn yn barod i fynychu meithrinfa'r ysgol yn 3 blwydd a 9 mis oed neu aros yng Nghylch Chwarae Templetots. Os bydd rhieni am gadw eu plant yng Nghylch Chwarae Templetots, dylai'r cyllid aros gyda'r lleoliad ac ni ddylid ei golli gan fod y rhieni wedi gwrthod lle yn nosbarth meithrin yr ysgol! • Mae gwasanaeth cofleidiol yn syniad gwych, ond dim ond os cedwir Templetots yn yr ysgol. Os yw Ysgol Tredeml, ar unrhyw adeg, yn bwriadu mynd â'r ystafell ddosbarth mae Templetots yn ei defnyddio ar hyn o bryd, yna dylai Cyngor Sir Penfro neu Ysgol Tredeml dalu costau symud, sefydlu a cholledion posibl Templetots. • Fel arall, dylai'r Cyngor ystyried ffyrdd o ymestyn yr ysgol bresennol i ddarparu'r lle ychwanegol y bydd ar ddosbarth meithrin yr ysgol neu Templetots ei angen.
19	<p>Rydw i'n cefnogi'r cynnig oherwydd byddai cysoni ag Ysgol Tafarnspite yn arfer da, gan eu bod wedi'u ffedereiddio. Hefyd, byddai'n gwella'r ddarpariaeth a'r profiadau dysgu i'r disgyblion trwy ddechrau'r ysgol yn gynt.</p>
20	<p>Mae Ysgol Tredeml yn un o 4 ysgol yn unig yn y Sir sydd ddim yn derbyn disgyblion rhan-amser. Oherwydd hynny, rwy'n teimlo bod hyn yn rhoi anfantais enfawr i'r ysgol wrth i rieni chwilio am ofal cofleidiol i'w plant. Er enghraifft, yn ysgolion Tafarnspite, Arberth a Stepside (y 3 ysgol agosaf), mae cyfleusterau ym mhob un ohonynt lle gall darparwr meithrin/gofal plant lleol gynnig gofal yn y bore gyda'r plant yn mynd i'r ysgol yn y prynhawn, gan olygu bod yr opsiwn ar gael i rieni ddychwelyd i'r gwaith am gost cymharol fach.</p>
22	<p>[REDACTED]</p> <p><i>(cuddiwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r atebwr am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</i></p>
23	<p>[REDACTED]</p> <p><i>(cuddiwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r atebwr am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</i></p>

24	Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig hwn; mae'n gwneud synnwyr i blant Templetots ddod i'r ysgol. Dyna'r ffordd gywir ymlaen, mae'n debyg.
26	Oherwydd bod yr ysgol yn ehangu o ran niferoedd, credaf y bydd hyn yn cryfhau'r ysgol fwy fyth trwy roi amser ychwanegol i ddarparu ddisgyblion ddod i arfer ag amgylchedd yr ysgol ac fel bod yr athrawon yn cael dealltwriaeth gynt o unrhyw gymorth ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer y disgybl. Hefyd, bydd hyn yn cysoni Ysgol Tredeml â mwyafrif yr ysgol eraill yn Sir Benfro trwy gynnig y ddarpariaeth hon.
27	Credaf fod Ffederasiwn Ysgolion Tafarnspite a Thredeml wedi bod yn llwyddiant gwych a byddai ymestyn yr ystod oedran yn galluogi Ysgol Tredeml i adeiladu ar y llwyddiant hwnnw. Gallai methu derbyn disgyblion tair oed yn rhan-amser achosi anfantais i'r ysgol o gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal a byddai'n caniatáu i'r plant gael profiad addysg cydlynol o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6. Ni fyddai ymestyn yr ystod oedran yn galw am fuddsoddiad cyfalaf a byddai'n caniatáu i blant o bentref Tredeml a'r cyffiniau ddod i arfer ag amgylchedd yr ysgol o oedran cynnar.
28	Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig gan ei fod yn darparu addysg barhaus o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6 yn yr un lleoliad ac mae'n cysoni'r ysgol â Thafarnspite yn y ffederasiwn. Mae gan ysgolion eraill yn yr ardal y ddarpariaeth hon hefyd. Nid oes gennyf ddewis arall yn lle'r cynnig hwn.
29	Dyma gyfle rhagorol i Ysgol Tredeml. Bydd disgyblion yn ffynnu trwy ddechrau'r ysgol yn gynt. Mae darpariaeth ar y safle yn barod gyda Templetots. Byddai'n wych i'r ysgol allu cymryd yr ardal hon drosodd a darparu gofal plant am ddim i deuluoedd. Dim dewis arall, rwy'n cefnogi'r cynnig hwn 100%
30	 <i>(cuddiwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r atebwr am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</i>
31	 <i>(cuddiwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r atebwr am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</i>
32	Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn, oherwydd yn fy marn i, ymestyn y ddarpariaeth sydd eisoes ar waith sydd o fudd pennaf i'r ysgol. Byddai'n cysoni Ysgol Tredeml â'i phartner yn y ffederasiwn yn Nhafarnspite. Fel rwy'n ei deall hi, dyma un o ychydig ysgolion yn unig yn y sir sydd ddim yn derbyn plant ar gyfer lleoedd meithrin erbyn hyn. Mae gennyf blentyn 5 mlwydd oed ym Mlwyddyn Un yn Nhredeml yn barod a mab 2 flwydd oed yn mynd i gylch chwarae Templetots ar y safle, ar hyn o bryd; fodd bynnag, byddai fy mab yn elwa'n fawr o allu dechrau Ysgol Tredeml yn rhan-amser, nad oedd ar gael i'm merch.

33	Rwy'n hapur bod fy mhlant ddechrau yn 4 oed. Nid wyf am i fy mhentyn ddechrau'n gynt.
34	<p>Nid wyf yn cytuno â'r cynnig gan nad oes angen newid y ddarpariaeth bresennol. Mae Templetots yn cynnig darpariaeth ragorol y blynyddoedd cynnar, wedi'i chofrestru gydag Estyn ac AGGCC, gyda'r ddarpariaeth ar safle'r ysgol ers 10 mlynedd ac wedi'i sefydlu ers 38 mlynedd. Yn fy marn i, ni fyddai fy mhentyn yn barod ar gyfer y lleoliad ysgol mor ifanc, ond bydd y cynnig hwn yn mynd â'm dewis i, i'w chadw yn Templetots, oddi arna' i. Mae nifer y staff fesul plant yn uwch ac mae amgylchedd addysg meithringar yno. Nid oes manylion am staffio yn yr ysgol wedi'u hamlinellu felly nid ydym yn gwybod beth mae'r ysgol yn ei ddarparu. Nid wyf yn deall y cynnig gan nad yw'n cynnig unrhyw beth gwell. Yn ariannol, bydd yn niweidiol i Gyngor Sir Penfro ar adeg pan rydyn ni'n wynebu colli gwasanaethau hanfodol a chynnydd yn y dreth gyngor.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Cadw'r ddarpariaeth gyda Templetots</p>
35	<p>Nid wyf yn cytuno â'r cynnig gan nad oes angen newid y ddarpariaeth bresennol. Mae Templetots yn cynnig darpariaeth ragorol y blynyddoedd cynnar, wedi'i chofrestru gydag Estyn ac AGGCC, gyda'r ddarpariaeth ar safle'r ysgol ers 10 mlynedd ac wedi'i sefydlu er 38 mlynedd. Yn fy marn i, ni fyddai fy mhentyn yn barod ar gyfer y lleoliad ysgol mor ifanc, ond bydd y cynnig hwn yn mynd â'm dewis i, i'w chadw yn Templetots, oddi arna' i. Mae nifer y staff fesul plant yn uwch ac mae amgylchedd addysg meithringar yno. Nid oes manylion am staffio yn yr ysgol wedi'u hamlinellu felly nid ydym yn gwybod beth mae'r ysgol yn ei ddarparu. Nid wyf yn deall y cynnig gan nad yw'n cynnig unrhyw beth gwell. Yn ariannol, bydd yn niweidiol i Gyngor Sir Penfro ar adeg pan rydyn ni'n wynebu colli gwasanaethau hanfodol a chynnydd yn y dreth gyngor.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Cadw'r ddarpariaeth gyda Templetots</p>
36	<p>Mae digon o ysgolion lleol sy'n ceisio goroesi ynghyd â meithrinfeydd preifat gyda phobl sy'n ceisio ennill bywoliaeth!! Stopiwch wthio'r ysgolion blaenllaw 'ma sydd ddim gwell nag unrhyw ysgol arall.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Defnyddiwch y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cyfagos</p>
37	<p>Mae'n gynnig da ar yr amod nad yw'r cylchoedd chwarae lleol yn cael eu rhoi mewn sefyllfa annheg.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Caniatáu i/annog cylchoedd chwarae i ymestyn eu horiau neu ganiatáu i staff o gylchoedd chwarae gynorthwyo â chyfnod pontio mewn cydweithrediad â'r ysgol.</p>

38	Rwy'n credu y bydd derbyn plant yn 3 mlwydd oed yn gwneud yr ysgol yn ddewis mwy deniadol i rieni.
39	Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn, oherwydd rwy'n teimlo y bydd y plant yn elwa o ddechrau'r ysgol yn dair oed, gan ddarparu gofal o 3 i 11 oed. Hefyd, mae'n golygu y bydd yn rhaid i'r ysgol gynnig yr hyn mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn Sir Benfro eisoes yn ei gynnig.
40	<p>Pam mae angen newid cylch chwarae sydd, ar hyn o bryd, yn llwyddiannus ac wedi'i drefnu a'i gynnal yn dda? Rydw i'n pryderu clywed am y cynigion hyn gan nad wyf o'r farn y bydd digon o staff i ddarparu'r gofal unigol y mae ar blentyn yr oedran hwn ei angen. Sut byddai'r ysgol yn gallu cefnogi datblygiad chwarae ar yr oedran hwn mewn amgylchedd ystafell ddosbarth? Mae gan y cylch chwarae presennol yr hyfforddiant a'r profiad i ddarparu hyn gan eu bod yn gymwys iawn!! Nid yw pob plentyn bach wedi dysgu mynd i'r toiled erbyn yr oedran hwn, felly rwy'n pryderu pa effaith gallai hyn ei chael ar blentyn bach sy'n datblygu'n araf yn hyn o beth. Gall y cylch chwarae presennol roi sylw i hyn! Hefyd, rwy'n pryderu sut gallai'r ysgol gefnogi datblygiad llefaredd i'r safon uchel sy'n cael ei gynnig gan y cylch chwarae ar hyn o bryd. Mae ar rai plant bach angen cymorth unigol ac mae'r cylch chwarae hyn yn oed yn gwneud iaith arwyddion yn ogystal â llefaredd! Teimlaf y byddai hyn yn rhwystro datblygiad plant trwy eu rhoi mewn ystafell ddosbarth yn rhy gynnar ac, fel tad i ddau o blant bach sydd ag anghenion penodol, rydw i wedi gweld eu bod wedi gwneud cynnydd a datblygu gyda chymorth y staff yn y cylch chwarae a chymorth therapyddion iaith a lleferydd sy'n dod yno i weithio gyda nhw; dydw i ddim yn credu gall yr ysgol gynnig yr un cymorth!! Ffordd o wneud arian gan yr ysgol yw hyn yn fy marn i, yn hytrach nag edrych ar y problemau fydd yn cael eu creu os aiff y cynnig hwn yn ei flaen!! Beth fyddai'n digwydd i'r staff yn y cylch chwarae? Sut bydd yr ysgol yn cefnogi'r cynnig hwn a'i staffio hefyd; dydw i ddim yn credu mai hwn yw'r opsiwn cywir ond rwy'n ofni bod y bwrdd wedi gwneud y penderfyniad yn barod a dim ond ticio blychau yw hyn??</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i></p> <p>Mae angen canolbwyntio a gwella'r cyfleusterau presennol sydd yno a darparu mwy o le, fel bod modd cael mwy o ddisgyblion yn Tots a helpu i gynnal y staff o safon uchel sydd yno! Gwella'r cyfleusterau trwy roi cyllid i ddatblygu hyn a gweld sut mae'r tîm staff sydd yno ar hyn o bryd o'r farn y gallent wella'r gwasanaethau, gan mai nhw yw'r arbenigwyr yn y maes!! Os bydd rhiant plentyn am i'r plentyn ddechrau'r ysgol yn gynt, yna gallai hwn fod yn opsiwn, ond dydw i ddim yn teimlo bod angen iddo fod yn ofyniad!</p>
42	Mae fy ymateb i'r ymgynghoriad, fel Arweinydd Tîm y Nyrsys Ysgol, fel a ganlyn; rydw i'n cefnogi Ysgol Tredeml o ran y cynnig cynllunio i ymestyn yr ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion 3 mlwydd oed. Mae gan yr Ysgol ethos cadarnhaol ac mae'n hyrwyddo safon uchel wrth ddarparu addysg gynradd. Bydd y ddarpariaeth yn cynnig cynaliadwyedd at y dyfodol, gyda ddarpariaeth addysgol ddi-dor i'r grŵp oedran hwn sy'n pontio yn yr un amgylchedd addysgol. Mae'n ymddangos bod adeilad yr Ysgol mewn cyflwr da ac yn addas i'w hymestyn, gan gynnig gwerth cynhwysol am arian.
43	Rydw i'n teimlo mai cylch chwarae Templetots ddylai barhau'n ddarparwr ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae'n darparu staff cymwys sy'n dilyn y Cyfnod Sylfaen ac sy'n paratoui'r plant ar gyfer yr ysgol, ac ar yr un pryd mae'n gallu darparu awyrgylch hapus, meithringar lle mae'r plant yn cael sylw unigol. Dydw i ddim yn credu bod modd cyflawni hyn o dan y cynnig presennol. Hefyd, rydw i'n credu bod 3 blwydd a 9 mis oed yn rhy gynnar o lawer i rai plant ddechrau'r dosbarth derbyn, a byddai hyn yn effeithio ar bontio'r plant hyn i'r ysgol. Fel y mae, mae Templetots wedi bod yn cynnig pontio di-dor i blant ers dros 37 mlynedd. Os na all plant bontio ar yr adeg hon, ni fydd opsiwn ymarferol i

	<p>rieni.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i></p> <p>Credaf mai Templetots ddylai barhau i ddarparu dysgu'r Blynyddoedd Cynnar, fel y mae wedi bod yn ei wneud.</p>
44	<p>Rydym yn darparu addysg y cyfnod sylfaen, wedi'i harolygu gan Estyn, hyd at 3 oed ar hyn o bryd. Byddai risg i gynaliadwyedd yn Templetots. Fe allwn i golli fy swydd ac ni fydd cymorth gan y plant rydw i'n gofalu amdany'n nhw 1:1. Bydd yn cael effaith niweidiol ar y gymuned gyfan, yn fy marn i. Bydd pobl yn anfon eu plant i ysgolion eraill sydd â darpariaeth ar gyfer plant iau, fydd yn gadael Tredeml heb blant.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i></p> <p>Darpariaeth lawn i aros yn Templetots, a fydd yn rhoi parhad i'r plant sy'n mynychu a phontio hwylus i'r ysgol.</p>
45	<p><i>(cuddiwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r atebwr am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)</i></p>
46	<p>Rydym ni fel Cylch Chwarae yn cynnig Addysg y Cyfnod Sylfaen, wedi'i harolygu gan Estyn, i blant 3 mlwydd oed. Mae gennym 3 thymor o gyllid, o'r amser pan fydd y plant yn troi'n 3 oed (y tymor canlynol). Byddai colli unrhyw gyllid yn cael effaith niweidiol ar gynnal y cylch chwarae, staffio a chyflogau. Bu'r cylch chwarae yn bodoli ers dros 35 mlynedd ac mae bob amser wedi hyrwyddo'r ysgol a chefnogi'r ysgol. Nid yw un tymor o gyllid yn ddim i'r ysgol ond mae'n golled fawr i ni. Rydym ni wedi gweithio'n galed i gyrraedd y pwynt hwn.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i></p> <p>Os nad yw wedi torri, does dim angen ceisio'i drwsio.</p>
47	<p>Fel rhiant a mam-gu, dydw i erioed wedi gwrthwynebu unrhyw newid mewn addysg os yw'n gwella'r sefyllfa, ond rwy'n amau mai newid er mwyn newid yn unig yw'r cynnig hwn, heb gyflawni unrhyw werth ychwanegol a dim ond ymdrech i adeiladu ymerodraeth ydyw. Tua 37 mlynedd yn ôl, roeddwn i'n un o'r aelodau a sefydlodd Gylch Chwarae Tredeml yn Neuadd yr Eglwys. O'r diwrnodau cynnar hynny mewn sawl gwahanol ddiwyg, fformat a lleoliad, i'r Templetots presennol, mae wedi datblygu'n sefydliad llwyddiannus iawn sy'n ateb anghenion y plant yn y Gymuned yn dda iawn. Mae fy nhair merch a'r ddau ŵyr hynaf wedi bod i Templetots ac wedi dechrau'r ysgol gynradd yn 4 oed, ac nid oedd pontio adeg yr oedran hwn yn broblem i'r un ohonynt nac yn niweidiol i'w datblygiad. Mae tri o wyrion eraill gennyf yn Templetots ar hyn o bryd ac, oherwydd bod y trefniadau presennol yn llwyddiant mawr, ni fyddwn eisiau i'w datblygiad gael ei beryglu gan y cynnig hwn. Byddwn yn gwneud y pwynt nad yw un sefyllfa yn addas i bawb ac ni fydd rhai plant yn barod i symud nac yn gallu symud yn 3 blwydd a 9 mis oed ac, yn sicr, gallai eistedd gyda phlant hŷn ac integreiddio â nhw gael effaith niweidiol ar y plant sydd ddim yn barod i symud yn gynnar. Er y gall 3 mis ymddangos yn gyfnod byr, gall datblygiad plentyn o'r oedran ifanc hwn fod yn enfawr ac, felly, ni ddylai'r bobl wrth wraidd y cynnig hwn gymryd hynny'n ganiataol. Mae enw rhagorol gan Templetots yn ddi-os, ac nid oes modd amau'r ffordd maent yn datblygu'r plant trwy arferion da i baratoi ar gyfer symud i Gyfnod Sylfaen yr Ysgol Gynradd. Fel y dywedais, mae sefydliad cyn-</p>

	<p>ysgol wedi bod yn y pentref ers 37 o flynyddoedd a byddwn i'n cwestiynu a oes digon o le yn yr ysgol i sicrhau na fydd angen yr ystafell sy'n cael ei defnyddio gan Templetots ar hyn o bryd ac na fydd yn cael ei llyncu gan yr ysgol; mae'r pontio'n hawdd iawn i'r plant iau a byddai symud i safle newydd yn y pentref neu'r tu allan iddo yn gam yn ôl. Rwy'n sylwi ar ddatganiad yn yr Adroddiad sy'n dweud na fyddai cynnydd yn nifer y staff yn y cynnig hwn ond mae tabl yn yr Adroddiad yn gwrthdweud hyn, felly mae angen eglurhad; yn amlwg, byddai hyn yn effeithio ar gyllideb yr ysgol. Eto, gallai'r posibilrwydd o golli cyllid ar gyfer darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar fod yn broblem i rai rhieni a gallai achosi problem i rywfaint o addysg y blynyddoedd cynnar. Dylai'r perfformiad, y safonau, y gofal a'r sylw rhagorol mae Templetots yn eu rhoi i'r plant fod yn gyfarwydd iawn i'r Ysgol Gynradd a'r Cyngor Sir. Rhaid i mi ddweud, mae cyflawniadau rhagorol llawer o gyn-ddisgyblion mewn addysg bellach yn profi bod y dull pontio presennol yn gweithio ac, eto, rwy'n cwestiynu'r cynnig hwn. Rydw i wedi cymryd amser i roi fy marn a'm pryderon yn fanwl ac rwy'n gobeithio bydd y rhain yn cael eu darllen a'u hystyried. Rydw i'n gobeithio nad yw'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud ac nad gweithred academaidd yn unig yw'r broses Ymgynghori hon i ateb gofynion polisi a gweithdrefnau'r Cyngor.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i></p> <ol style="list-style-type: none"> 1). Dylai'r sefyllfa bresennol barhau oherwydd bod y trefniadau presennol yn gweithio mor dda. 2). Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, fel rydw i'n ofni, dylai Templetots aros ar yr un safle. Os yw Ysgol Tredeml yn bwriadu defnyddio'r ystafell ddosbarth bresennol sy'n cael ei defnyddio gan Templetots, dylai Cyngor Sir Penfro gynnal adolygiad llawn o'r lle sydd ar gael ac, os bydd angen, dylid darparu ystafell ychwanegol trwy ymestyn yr ysgol bresennol. 3). Os bydd Templetots yn cael ei orfodi i adael campws yr ysgol, dylai Ysgol Tredeml a Chyngor Sir Penfro dalu'r holl gostau adleoli sy'n gysylltiedig. 4) Ni ddylai cyllid gael ei golli oherwydd bod premiwm y disgybl yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol drwy'r cynnig hwn. 5) Rhaid i'r rhieni neu'r gwarcheidwaid gael y gair olaf ar y penderfyniad i symud plant yn 3 blwydd a 9 mis oed, gan fod gallu a datblygiad pob plentyn yn amrywio cymaint mor ifanc â hyn.
50	<p>Byddai cefnogi'r cynnig hwn yn golygu cau Cylch Chwarae Templetots ac nid ydw i'n cefnogi hynny. Mae fy mab yn mynd i Templetots ddau ddiwrnod yr wythnos ar hyn o bryd ac mae wrth ei fodd yno; mae ei sgiliau cymdeithasol yn datblygu'n gyflym ac mae'n dod adref ar ôl pob sesiwn wedi dysgu rhywbeth newydd; mae wedi dechrau siarad Cymraeg ac rwy mor falch o glywed hyn gan nad ydw i'n siarad Cymraeg fy hun ac mae'n arwyddo rhai geiriau gan fod hyn yn cael ei annog gyda phopeth sy'n cael ei ddweud. Mae'r menywod sy'n rhedeg Templetots yn arbennig ac oherwydd fy mod i'n gallu gweld eu bod yn gwneud cystal gwaith, rwy'n gobeithio anfon fy ail fab i'r cylch chwarae pan fydd e'n 2 oed.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i></p> <p>Mae'n teimlo i mi fod 3 blwydd a 9 mis oed yn oedran ifanc iawn i ddechrau'r ysgol brif ffrwd. Mae plant o'r oedran hwn yn dysgu trwy chwarae, gweithgareddau llawn hwyl a chwarae creadigol. Y dewis arall yw cadw Templetots ar agor fel y gall ein plant fynychu a pharhau i ffynnu yn yr amgylchedd priodol.</p>

51	<p>Mae darpariaeth ragorol eisoes ar waith ar dir yr ysgol, ar ffurf cylch chwarae Templetots.</p> <p><i>(Dewis arall a awgrymwyd)</i> Templetots yn parhau i ddarparu</p>
TMP1	<p>Fel Pennaeth ffederasiwn Ysgolion Tafarnspite a Thredeml, hoffwn roi fy nghefnogaeth i'r cynnig i ymestyn yr ystod oedran i dderbyn disgyblion tair oed yn rhan-amser yn Ysgol Tredeml.</p> <p>Mae sawl rheswm pam rydw i'n meddwl y byddai hyn yn syniad da:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'n cysoni arferion yn nwy ysgol y ffederasiwn fel y gallant weithredu'n gyfartal o safbwynt derbyniadau a darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae'r ddarpariaeth hon eisoes wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus yn Ysgol Tafarnspite ac mae'n cynnig cyfle cyfartal i deuluoedd. Ar hyn o bryd, Tredeml yw un o'r ysgolion prin yn y sir sy'n methu derbyn disgyblion tair oed. 2. Bydd yn cynnig darpariaeth addysg ddi-dor o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6, gan felly sicrhau parhad mewn dulliau dysgu ac addysgu a chynllunio'r cwricwlwm yn well. Mae hyn eisoes yn cael ei wneud yn llwyddiannus iawn yn Nhafarnspite a byddai gweld yr un broses ar waith yn Nhredeml yn fuddiol iawn. 3. Bydd yn cynnig cyfleoedd estynedig ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm i staff addysgu yn y cyfnod sylfaen, i adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau dysgu ystyrlon ac effeithio'n gadarnhaol ar safonau cyffredinol yr ysgol. 4. Bydd yn galluogi monitro ac olrhain perfformiad disgyblion yn fwy effeithiol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6, gydag ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith lle rydym yn gwybod eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar leihau bylchau mewn cyflawniad yn ystod y blynyddoedd cynharaf. Hefyd, rydw i o'r farn y bydd anghenion a lles emosiynol disgyblion, a'r cysylltiadau cadarnhaol â'u teuluoedd, yn cael eu hymestyn ymhellach trwy gydweithio ac ymgysylltu â nhw'n gynharach. 5. Gall y cynnig hwn gael ei gyflawni heb fuddsoddiad cyfalaf. 6. Bydd yn caniatáu am fwy o ddarpariaeth feithrin i blant 3 mlwydd oed yn yr ardal, gan felly roi cyfle i gynyddu nifer y disgyblion yn Nhredeml a chysoni Tredeml ag ysgolion lleol eraill. 7. Bydd yn cynnig darpariaeth 'gofleidiol' effeithiol gyda Templetots. Byddai disgyblion tair oed, yn y tymor cyn eu pen-blwydd yn bedair oed, yn mynd i Templetots yn y bore a'r dosbarth Meithrin yn Ysgol Tredeml yn y prynhawn, gan greu trefniant 'cofleidiol'. <p>Diolch yn fawr iawn am ystyried fy rhesymau dros gefnogi'r cynnig hwn.</p>

TMP2	<p>Trafododd Cyngor Ysgol Tredeml yr ymgynghoriad hwn yn eu cyfarfod wythnos yma. Dyma'u meddyliau/sylwadau/syniadau:</p> <p>Roedd un disgybl yn teimlo bod dechrau pan rydych chi'n dair oed yn syniad da oherwydd gallwch chi ddod i adnabod yr athrawon a'r bobl eraill yn gynt. Ychwanegodd disgybl arall y gallwch chi ddod i adnabod y dosbarth a dysgu mwy pan rydych chi'n ifancach. Gallwch chi ddechrau ysgrifennu'n gynharach. Soniodd disgybl arall y byddech chi'n treulio dwy flynedd yn nosbarth y Blynnyddoedd Cynnar fel y dosbarthiadau eraill a byddwch chi'n cael cyfleoedd i wneud pethau'n gynt.</p> <p>Cytunodd disgyblion ei bod hi'n bwysig bod yn debyg i'r ysgolion eraill yn y sir. Teimlont fod bod yn debyg i Dafarnspite yn bwysig gan ein bod ni mewn ffederasiwn ac yn gwneud pethau gyda'n gilydd. Ychwanegodd disgybl arall nad oes rhaid i ni fod yr un peth â Thafarnspite oherwydd rydyn ni'n ysgol annibynnol. Er, mae'n well bod yr un peth o ran hyn. Nid oedd disgyblion eisiau i blant orfod mynd i ysgol arall gan nad yw ysgol Tredeml yn dechrau tan 4 mlwydd oed. Roedden nhw o'r farn y dylai Tredeml fod yn union fel yr ysgolion eraill.</p> <p>Yn ôl y Cyngor Ysgol, os oedd plant mewn ysgolion eraill yn gallu ymdopi'n dda â dechrau'n 3 oed, yna gallai plant Tredeml wneud hynny hefyd. Nid oeddent eisiau i blant Tredeml fod ar ei hôl hi o gymharu â phlant o ysgolion eraill oherwydd roeddent yn dechrau'n hwyrach.</p>
TMP3	<p>Fel Cadeirydd Llywodraethwyr ffederasiwn Ysgolion Tafarnspeit a Thredeml, hoffwn gynnig fy nghefnogaeth i'r cynnig i ymestyn yr ystod oedran i dderbyn disgyblion tair oed yn rhan-amser i Ysgol Tredeml.</p> <p>Rydw i wedi amlinellu ychydig resymau isod pam y byddai hyn yn syniad da yn fy marn i:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'n cysoni arferion yn nwy ysgol y ffederasiwn fel y gallant weithredu'n gyfartal o safbwynt derbyniadau a darpariaeth y blynnyddoedd cynnar. Mae'r ddarpariaeth hon eisoes wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus yn Ysgol Tafarnspite ac mae'n cynnig cyfle cyfartal i deuluoedd. Ar hyn o bryd, Tredeml yw un o'r ysgolion prin yn y sir sy'n methu derbyn disgyblion tair oed. 2. Bydd yn cynnig darpariaeth addysg ddi-dor o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6, gan felly sicrhau parhad mewn dulliau dysgu ac addysgu a chynllunio'r cwricwlwm yn well. Mae hyn eisoes yn cael ei wneud yn llwyddiannus iawn yn Nhafarnspite a byddai gweld yr un broses ar waith yn Nhredeml yn fuddiol iawn. 3. Bydd yn cynnig cyfleoedd estynedig ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm i staff addysgu yn y cyfnod sylfaen, i adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau dysgu ystyrlon ac effeithio'n gadarnhaol ar safonau cyffredinol yr ysgol. 4. Bydd yn galluogi monitro ac olrhain perfformiad disgyblion yn fwy effeithiol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6, gydag ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith lle rydym yn gwybod eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar leihau bylchau mewn cyflawniad yn ystod y blynnyddoedd cynharaf. Hefyd, rydw i o'r farn y bydd anghenion a lles emosiynol disgyblion, a'r cysylltiadau cadarnhaol â'u teuluoedd, yn cael eu

hymestyn ymhellach trwy gydweithio ac ymgysylltu â nhw'n gynharach.

5. Gall y cynnig hwn gael ei gyflawni heb fuddsoddiad cyfalaf.
6. Bydd yn caniatáu am fwy o ddarpariaeth feithrin i blant 3 mlwydd oed yn yr ardal, gan felly roi cyfle i gynyddu nifer y disgyblion yn Nhredeml a chysoni Tredeml ag ysgolion lleol eraill.
7. Bydd yn cynnig darpariaeth 'gofleidiol' effeithiol gyda Templetots. Byddai disgyblion tair oed, yn y tymor cyn eu pen-blwydd yn bedair oed, yn mynd i Templetots yn y bore a'r dosbarth Meithrin yn Ysgol Tredeml yn y prynhawn, gan greu trefniant 'cofleidiol'.